

**LLEISIAU O LAWR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR**

**Ffatri Parson's Pickles (Tua 1951) & Ffatri Yr Optical, Cydweli (1970 – 1980)**

**Cyfwelai:** VSW008 Sally Cybluski

**Dyddiad:** 26.11.13

**Cyfwelydd:** Susan Roberts ar ran Archif Menywod Cymru

*There is an English summary at the end of the Welsh text*

**00.00.30: Os chi'n gallu rhoi enw llawn i fi i ddechre. Beth yw'ch enw llawn chi?  
Cyn priodi?**

**Wel, cyn priodi a ar ôl priodi.**  
Sarah Mary Griffiths.

**A wedyn 'nny ar ôl priodi, beth o'dd ych enw chi ar ôl priodi?**  
Sarah Mary Cybluski.

**A fel i'ch chi'n ca'l ych nabod? Ddim fel Sarah ife? Fel ych chi'n ca'l ych nabod? Fel  
Sally ife?**  
Fel Sally, ie.

**00.01.06: Os allech chi rhoi'ch address i fi? Address fan hyn.**  
Seven, Plas y Môr, Burry Port (Complex).

**A beth yw'ch date of birth chi? Dyddiad geni.**  
Nineteen Twenty One. [26/10/1921]

**Ac yn October geso chi'ch geni?**  
Yn October.

**A ble gesoch chi'ch geni wedyn?**  
Pencnwc, Rhydargaeau, Caerfyrddin.

**A fi'n gwbod bod fi'n gwbod yn barod, ond allwch chi weud 'tho fi beth mae'ch tad yn  
neud? Pwy waith o'dd e'n neud?**  
Ffarmo.

**Ffarmo, yn Rhydargaeau i ddechre ife?**

Ie. A 1928 dethon ni lan i Pinged, Pembre.

**Pam symudoch chi te, chi'n cofio?**

Achos y perchen Pencnwc, o'n nhw moyn i ni fynd o' 'na achos o'n nhw'n dod 'na eu hunen.

**00.02.26: So och chi'n tenants yn Rhydargaeau a wedyn gesoch chi ffarm, wel tyddyn bach yn Pinged.**

Yn Tŷ Canol, Pinged.

**A buodd ych mam yn gwitho erio'd?**

Naddo. O'n i'n ddeg o blant chwel.

**00.02.48: Allwch chi weud 'tho fi sawl brawd a sawl wha'r o'ch chi?**

Saith brawd, a tair wha'r.

**O'ch chi'n deulu mowr te, llond lle.**

Llond lle.

**A beth am ych ysgol wedyn? Ble buoch chi yn yr ysgol wedyn?**

Pan dethon ni lan i Pinged, o'n i'n mynd i ysgol Pinged. O'n i ar y ca' 'nny, chi'n gwbod te reit, yr ysgol chi'n gwbod te. O'dd hi wedi ca'l ei bildo ar.

**Fel o'ch chi'n mynd i'r ysgol wedyn?**

Cerdded.

**00.03.25: A beth o'dd ych oedran chi'n gadel ysgol?**

Wel, fourteen.

**O'ch chi wedi bod yn ysgol Pinged. Buoch chi mewn ysgol arall ar ôl 'nny wedyn?**

Do, cyn bod fi'n dod i Pinged, yn Rhydargaeau. Sa i'n cofio.

**Yr ysgol fach yn Rhydargaeau.**

Yr ysgol fach o'dd hi.

**Wedyn buoch chi'n Pinged.**

Dim ond saith blwydd o'd o'n i yn Rhydargaeau pan symudon ni lan i Pinged, reit. Saith mlwydd o'd. 'Y mrawd Tom, a Margaret, 'yn wha'r. O'n nhw'n mynd i'r ysgol a o'n nhw'n cario fi yn amal iawn, achos o'dd tair milltir 'da ni i gerdded i fynd i'r ysgol.

**O'dd e'n bell o'dd e?**

O'dd.

**O'n nhw'n moyn cario chi?**

O'dd dim dewish 'da nhw.

**00.04.32: A wedyn ar ôl ysgol Pinged, yr ysgol fach ble buoch chi wedyn?**

Cwplles i yn Ysgol Pinged.

**Ethoch chi ddim i Burry Port, i'r Central?**

Naddo, naddo. Ethof fi ddim i'r Central na dim yw dim.

**00.04.49: A shwd o'ch chi'n teimlo ymbytu cwpla'n ysgol? O'ch chi'n hapus ne' o'ch chi'n moyn, o'ch chi'n edrych 'mla'n i gwpla?**

Gatre o'n i ife. Gatre o'n i.

**Pwy o'dd yn gweud 'tho chi am gwpla wedyn? O'dd ych mam ne'ch tad yn gweud, reit ma'n amser ne o'dd rhywun arall yn gweud?**

O'dd 'yn Wncwl fi yn Clover, Llanpumsaint, o'n nhw moyn fi lawr 'na i sefyll. Brawd 'yn nhad o'dd e. O'n nhw'n seventy six, y ddou o' nhw. A dim plant 'da nhw chwel, a bues i lawr fan'na am 'bytu dwy flynedd. A wrth gwrs, marwon nhw wedyn 'nny a detho fi gatre. O'dd tylwyth gyda hi, o'dd e wedi marw o bla'n hi chwel, a nawr wrth gwrs, o'dd tylwyth i hi, fe gas hi'r cwblwl te reit, chi'n gwbod ar ei gôl hi te wrth gwrs ife.

**00.05.57: Shwd o'ch chi'n twmlo te achos, chi'n gwbod o'ch chi, mewn ffordd wedi gadel gatre wedyn yn fourteen o'ch chi. O'dd Llanpumsaint yn bell o Pinged o'dd e? O'dd, o'dd.**

**O'ch chi'n gallu dod gatre ambell waith?**

O'n, o'n i'n dod gatre.

**Pwy mor amal o'ch chi'n dod gatre?**

Wel, o'dd dim dal pryd o'n i'n dod gatre, chi'n gwbod. O'n i'n mynd nôl wedyn 'nny. O'n i'n dod yn y bore a mynd nôl yn y nos chwel. O'dd bysus yn mynd chwel.

**O'dd hiraeth arnoch chi te am gatre? O'ch chi'n gweld ishe gatre?**

Bach o hiraeth, achos o'n i'n ifanc chwel o'n i.

**00.06.37: O'dd e ddim yn lot o fywyd ar ferch ifanc o'dd e?**

Nago'dd, nago'dd. A o'dd hwnna mas, o'dd dim tŷ yn agos yn Llanpumsaint, a bob Sul o'n i'n mynd i'r cwrdd yn Caersalem, lawr yn Llanumsaint reit, mynd i'r cwrdd bob dydd Sul, Caersalem, Baptist. Ar y diwedd detho fi gatre. Wel, nawr erbyn 'nny o'n i'n eighteen. A dorrodd y rhyfel mas reit. A galwon nhw fi lan. Wrth gwrs, colliers a farmers o'n nhw'n exempt, chwel a fe geso i lle wedyn 'nny, etho fi i'r ffarm i witho yn Frongelli, Bronwydd Road, Caerfyrddin. Ethof i gwitho fan 'nny, reit. O'n i'n codi am wech o'r gloch un y bore, reit, godro'r da, reit, a wedyn o'dd e a fi yn mynd mas wedyn 'nny â'r lla'th i Gaerfyrddin, rowndo i tai, stên 'da chi, a'r cwpan fan hyn a stên 'da chi, a shwd gw mint o bwyse yn y stên chi'n gwbod te, lla'th chi'n gweld. O'n i'n mynd mas am wyth o'r gloch yn y bore, o'n i nôl bytu rhwbeth wedi doudeg, rowndo Gaerfyrddin i gyd â lla'th.

**O'ch chi nôl cyn cino, wedi neud tyrn o waith.**

A nôl wedyn 'nny, gorfod golchi'r pethe reit, a wedyn 'nny erbyn 'nny ar ôl, o'ch chi'n dod gatre i ga'l cino wrth gwrs, a golchi'r pethe wedyn 'nny ar 'u gôl nhw, reit. Erbyn 'nny o'dd bryd i godro y da 'to te yn y nos. A wedyn 'nny o'n i'n cwpla.

**00.09.01: O'dd dim meibion 'da'r ffarmwr 'na te?**

Dim ond un, o'dd e'n dod i'r 'homes'. Un o'r homes o'dd e. Crwt ifanc o'dd e.

**00.09.13: O'dd e'n gwitho ar y ffarm?**

O’dd e’n gwitho ar y ffarm ond o’dd e ddim yn neud llawer o ddim byd, chi’n gwbod te. Jest cymoni ymbytu’r lle a pethe fel ‘nny. Ond, o’dd e ddim yn neud beth o’ch chi’n neud.

**00.09.27: Achos o’ch chi’n byw ar fferm beth bynnag o’ch chi?**

O’n.

**Ond o’ch chi’n gorfod mynd i ffarm arall am y ‘call up’ ‘na.**

O’dd, o’dd. Y call up ceso i, o’n i’n gorfod mynd, wel etho fi i’r ffarm hyn wedyn ‘nny. O’n i exempt o’n i. Bues i ‘na bytu dwy flynedd. Bydden i wedi bod ‘na am fwy ‘na ‘nny cofiwch, reit. Fe gwmpes i lawr o’r iard a steps yn mynd lawr i’r tŷ, a fe gwmpes i, reit. A fe gwmpes i ar fy nghefen dofe, a gorffes i mynd lawr i Infirmary Caerfyrddin, o’dd dim hwnna i ga’l pyr’nny, y llall. Lawr i Infirmary Caerfyrddin.

**Fel ethoch chi lawr te?**

A’th e lawr â fi, reit. Mr Bevan. A o’n i ‘di torri asgwrn yn y cefen. A Mr James weles i, y doctor. A gorfes i fynd gatre dofe, gorfes i roi’r ffarm lan, reit. A mewn bytu six weeks fel ‘na, geso i alw lan ‘to reit. O’n i moyn fi..

**00.10.50: Fel o’ch chi’n ca’l call up te? Beth o’dd yn digwydd? O’ch chi’n ca’l llythyr?**

O’n i’n ca’l llythyr, o’n i’n ca’l llythyr.

**00.10.58: Shwd o’ch chi’n twmlo pan o’ch chi’n gweld y llythyr ‘na’n dod?**

Wel, o’dd dim byd i neud o’dd e, o’ch chi’n ca’l e. Wel, geso i lythyr wedyn ‘nny. O’n i wedi bod gatre wedyn ‘nny ar ‘y nghefen reit, a geso i lythyr. O’n nhw moyn i fi mynd i witho yn Morrison Hospital, cla’u te chi’n gwbod ife. O’n i ffaelu neud e achos ‘yn gefen i. Wrth gwrs, reites i nôl yn gweud chi’n gwbod, beth o’dd wedi digwydd.

**00.11.36: O’dd rhywun yn dod mas i sieco te?**

Nago’dd. O’dd neb yn dod mas i sieco.

**O’dd papur doctor ‘da chi?**

O’dd papur doctor ‘da fi chwel, o’dd papur doctor ‘da fi.

**O’ch chi’n siarad am y call up ‘na, ‘na fel o’ch chi’n ca’l y call up cynta’ ife – llythyr yn dod. Achos o’ch chi gatre ar y ffarm pyr’nny, o’dd ych tad a’ch mam ife? A’ch wha’r.**  
Ych mam.

**00.12.00: O’n nhw’n gwitho ‘na. Ble o’dd y bois te?**

O’dd y bois, o’dd dou, nage, o’dd dou yn yr armi, reit, a’r lleill yn gwitho lawr ochor draw Caerfyrddin ar ffarmydd i gyd, o’n nhw’n exempt, bar dou. Gorffodd dou o’ nhw, Harri a Gwilym, gorffon nhw fynd i’r armi, reit. A o’dd Harri mas yn ffeito yn yr Eighth Army mas yn Italy. Buodd e mas ‘na am five years. Gas e’i woundo gofiwch, ond ambulance driver o’dd e mas ‘na. Chi’n gwbod dde rhywun yn ca’l lo’s nawr, injury, o’dd e’n gorfod mynd i ôl hwnna, driving ambulance. Ond am Gwilym buodd e ddim mas o’ ‘ma, chi’n gwbod te.

**Chi’n gwbod o’dd y rhyfel yn dod fel ‘na, o’dd e’n meddwl bod chi gyd yn mynd, yn gwasgaru o’dd e? O’dd hwnna siwr o fod yn galed i chi o’dd e, fel teulu?**

O’dd, o’dd. So eniwê wedyn ‘ny, ble o’n i?

**O’ch chi wedi cael y llythyr i fynd i Morrison..**

Ffaeles i fynd achos 'yn gefen i. Gatre bues i wedyn 'nny. Wel wedyn 'nny ar ôl e dod yn well reit, o'n i moyn mynd i witho i ga'l arian ife. A geso i lle yn Lammas Street, Caerfyrddin. O'dd siop, wool shop, gyda hi, reit. O'dd hi dros ei seventies yn byw, reit. A o'dd niece gyda hi, o'dd hi bant, a'i gŵr hi o'dd e'n uwch iawn. Galla i ddim â gweud 'tho chi, fel rhyw officer o rwbeth o'dd e reit. O'n nhw'n dod lawr, chi'n gwbod te, nawr and again. Ond o'n i nawr yn cla'u iddi hi, reit. A yn y prynhawn o'n i'n mynd mewn i'r siop ar ôl cla'u chi'n gwbod te, i helpu ddi mas yn y siop, chi'n gwbod te.

#### **00.14.35: Chi o'dd yn dewish mynd fan'na wedyn? Nage call up, chi o'dd wedi?**

Nage.

#### **A shwd o'ch chi wedi clywed am y jobyn bach 'na te, fel o'ch chi'n gwbod amdano fe?**

Sa i'n cofio nawr, ond geso i fe eniwê, chi'n gwbod te. A bues i 'na, wedyn 'nny, a fe gwrddes i â'r gŵr dofe. Polish. O'dd e 'di bod yn slave labour camp yn Germany, y Germans yn mynd â fe gatre, reit. A buodd e yn y labour camp, am dros tair blynedd, is bod American a'r British troops yn lando yn ochor draw. A o'n nhw, o'dd e yn Belgium gyda'r German, yn prisoner nawr, reit. A pam landon nhw dethon nhw, dethon nhw yn agos i'r camp hyn. O'dd canno'dd a canno'dd a milo'dd a milo'dd o' nhw, reit, o prisoners 'na, reit. Bob nationality, reit. French, Belgium, Dutch, Polish, all. Wel, pan landodd yna ar bwys y camp, jengodd y Germans. Gadwon nhw'r camp fel o'dd. O'n nhw ffaelu mynd â dynon gyda nhw achos o'dd gormod o ddynon eniwê. Fe ethon nhw. O'n nhw'n mynd mas yn y bore i neud gwaith dan y Germans, a'r cŵn a popeth gyda nhw gyda'r German chi'n gwbod ife, a gun chwel ife, a o'n nhw'n mynd nôl i'r camp yn y nos. Buodd dros tair blynedd gyda nhw. Wel, eniwê.

#### **Fel ffindodd e 'i ffordd i Gaerfyrddin te?**

Gaf i weud 'tho chi nawr. Landodd British a American troops a dethon nhw ar y traws y camp hyn, a o'n nhw'n gofnid nawr o ble ych chi'n dod, ble o'n i'n dod. Rhai o'dd yn dod o France o'n nhw'n ca'l mynd nôl i wledydd 'u hunen. A Belgium, o'n nhw'n ca'l mynd nôl i wledydd 'u hunen, a'r Dutch o'n nhw'n ca'l mynd nôl ar 'u hunen. Ond y Polish boys, o'n nhw ffaelu mynd nôl achos o'dd y Germans yn 'rulo' Poland, reit, ar y pryd. O'n nhw wedi mynd trw' Poland. Tair wythnos buon nhw. 1939 reit, September 1939. 'Na beth netho'r British troops, dathon nhw nôl â'r Polish troops. Dethon nhw nôl â'r Polish troops i gyd i Scotland. A fe joino nhw yr armi yn Scotland, y Polish people. O'dd Poland gyda ni chwel. O'n nhw ddim gyda'r Germans. Gyda ni. Dyna shwd a'th y wlad hyn i ryfel achos o'n nhw wedi mynd, achos o'dd y Germans wedi mynd i Poland chwel, o'n nhw. A o'dd Poland yn belongo, wel, o'n nhw'n friendly â'r wlad hyn. So dethon nhw nôl i Scotland â nhw. A joino nhw'r armi. Wel, nawr, ar ôl 'nny, ar ôl joino'r armi, o'dd rhai o'n nhw'n ffit, a rhai o' nhw ddim yn ffit o'r bois. O'dd y rhai o'dd yn ffit, o'n nhw'n gorffod mynd nawr o Scotland mas i Italy, i ffeito gyda'r British troops reit. A ffaelodd Wadic. O'dd e wedi ca'l operation fan hyn chwel. A ffaelodd e fynd eniwê reit. A o'dd y bois a'th mas o, yn y boat o Scotland, i Italy, arrivon nhw ddim 'na. A'th y boat lawr. Gas hi i fomo gyda'r Germans. Boddon nhw i gyd.

#### **00.19.33: Beth o'dd enw'r llong, chi'n cofio?**

Sa i'n gwbod. Sa i'n gwbod beth o'dd enw'r llong reit. A'th y llong lawr eniwê. Lwucus bod e ddim wedi mynd, bydde fe wedi mynd in any case. Wel, 'na beth nethon nhw wedyn 'nny, y rhai bois o'dd ar ôl reit, dod lawr â nhw o Scotland i Johnstown, Caerfyrddin, reit. O'dd Germans prisoner of war 'na, reit, yn y camp yn Johnstown. A nhw nawr yn guardo'r Germans.

**00.20.09: O’dd pethe wedi troi rownd te?**

Ie. Troi rownd ife. A wrth gwrs, ‘na ble gwrrdes i â fe. Wel, dim yn y camp, yn y dre cwrddes i â fe.

**Love at first sight ife?**

Ie.

**Achos o’dd e’n fachan good looking o’dd e?**

O’dd, o’dd. Buon e gyda fi, buon ni bytu fifteen months, chi’n gwbod te. A ‘sgwrs o Miss Phillips nawr, ble o’n i’n gwitho, o fan’na, chi’n gwbod te, ethof fi gatre wedyn ‘nny a fe priodes i fe. Yn February, 23<sup>rd</sup> 1946, reit. 1946. ‘Na chi. Beth alla i weud arall nawr.

**00.21.01: Wel, ar ôl i chi briodi wedyn buoch chi bant am sbel dofe? Ethoch chi lan i fyw yn Scotland?**

O’n i’n priodi yn February a nawr o’dd e still yn yr army. O’n i’n ca’l two pound fifty a week. ‘Na i gyd o’n i’n ca’l reit. Magu plentyn ar two pound fifty a week. Geso i plentyn wedyn ‘nny a Christmas time, o’dd e, gorfodd e mynd lan i Scotland, a o’dd e still yn ei army suit. Gorffon nhw mynd lan i Scotland i gyd. Reit, o’n i gatre gyda mam a nhad reit, o’r amser ‘na is bod hi amser Christmas, reit. Wel, fe gas e demob yn Scotland. Gas e jobyn yn y Brickyard.

**Ymble o’dd hwnna wedyn?**

Yn Alness. Alness yn Scotland. Wel, da’th e lawr Christmas time reit, a a’th fi nol gyda fe, a’r plentyn. A wedyn ‘nny, gas e, o’dd e’n gwitho yn y lle nawr. O’n i ‘di ca’l lle bach reit fel sieds o’n nhw, fel camp sieds reit. Sefyll fan ‘nny a o’dd lot o, camps o’n nhw, chi’n gwbod, wedi bod. A sgwrs o’dd lot o ddyinion ‘na, reit, yn byw ‘na.

**00.23.00: Shwd beth o’dd y lle i fyw te? O’dd e’n olreit?**

Lovely people. Scotland, lovely. O’n nhw, dynion neisach ag allech chi i ga’l. O’n nhw really, really nice people, reit. O’ch chi’n mynd i’r siop o’ch chi’n ca’l mor gymint o welcome ‘da nhw. Allech chi credu bod chi’n nabod nhw, te. So eniwê yn June dethof i nol, sa i’n cofio’r date yn June, I can’t tell you. A o’n i’n dod gatre. A fe cas e jobyn yn y Sandy Sheetmills, Llanelli, yn Pwll.

**O’ch chi’n falch i ddod nôl?**

O’n i’n falch. O’n i’n falch i ddod nôl chi’n gwbod ife. Wel, strangers o’n i chwel ife lan yn Scotland. Ond am y Scotch o’n nhw’n beautiful. Ma’ rhaid gweud y gwir amdany’n nhw. O’n nhw’n really wonderful people i fi eniwê. O’ch chi’n ca’l welcome ‘dan nhw. O’ch chi’n mynd i siop a chi’n gwbod te, o’n nhw yn really nice people. Wel, nawrte, dethof fi nôl yn June reit. A gas e job yn Sandy Steelworks, Sandy, Pwll, reit. A buodd e ‘na am seventeen years.

**00.24.42: Beth amdano chi wedyn, gatre o’ch chi ife?**

Gatre o’n i.

**A ble o’ch chi’n byw?**

Yn Tŷ Canol. Sori, sori, sori. Geso i tŷ bach ar bwys Church Road, reit. O’dd row, o’dd wech tŷ gyda’i gilydd.

### **Yn Burry Port?**

Yn Burry Port. Church Road. O'dd wchch tŷ bach 'na. A dynion yn byw ynddyn nhw. A etho fi lan i weld Miss Rees, o'dd yn berchen y tŷ, reit, a ceso i'r tŷ reit. Dim ond dou rŷm o'dd e. A scullery. Reit. O's sgwrs, fe farwodd y groten chwel, cyn bod fi'n symud i Dyfatty. Y plentyn te. So bues i'n byw fan'na wedyn 'nny, reit. A buodd e'n y Steel Works yn gwitho, a ethof fi i witho yn Edwards y Cleaners yn dre. Yn Tunnel Road.

### **00.25.58: O'ch chi wedi bod yn rhywle cyn Edwards, o'ch chi wedi bod yn Parsons ne' rhywle cyn 'nny o'ch chi?**

O, o'n. Sori. Wy' 'di bod yn Parsons. Nawr fi'n cofio.

### **00.26.08: Beth o'dd Parsons?**

Safwch funed nawr. Bues i, bues i yn Dyfatty, a ethof fi i'r cockle factory, reit, a bues i 'na byty flwyddyn.

### **A shwd beth o'dd hi'n gwitho fanna?**

Terrible.

### **Pam 'nny? Beth o'ch chi'n neud 'na?**

Packing. Paco mysyls mewn poteli. Paco mysyls. O'n i'n byw yn Church Road pyr'nny.

### **00.26.45: Fel o'ch chi wedi cael y job 'na te? Chi'n gwobod, o'ch chi'n mynd mewn a gofyn? Ne' o'ch chi' 'di clywed bod jobsys yn mynd?**

Wel, o'dd merched yn gwitho 'na, o'n nhw 'na heddi, o'n nhw wedi mynd 'fory.

### **Ma' hwnna'n gweud lot ydyw e?**

Mor wael, reit. Wel, fi'n gweud 'tho chi nawr te. Ethof fi i'r cocl ffactri i witho reit. A bues i 'na ymbytu flwyddyn. Reit. A pwy o'dd drosto ni, o'dd German woman, Gertrude Jones. O'dd hi wedi priodi â Welsh man o Pembre, reit. O'n i'n nabod e a o'n i'n nabod ei ddwy 'wha'r e. Reit. A un diwrnod o'dd hi'n dod rownd â papure, chi'n gwobod fel sheets of paper i bawb. O'dd pawb yn ca'l e reit. Bob un ohono ni. Dishgwyl arno fe, reit. O'dd e'n gweud y pethe rhyfedda ar y llythyr, o'dd e wedi reito fe, y bos nawr. Parsons.

### **00.28.03: Beth o'dd e'n gweud te?**

O'dd e'n gweud bod y merched sy' gyda fe'n gwitho 'na, o'n nhw'n 'lazy', ac yn, wel, wedodd e dipyn o bopeth. O'dd e'n galw'r merched yn bopeth. Dyn y diawl o'dd e chwel.

### **00.28.24: Shwd o'ch chi'n twmlo'n gweld hwnna?**

Terrible, reit. A sgwrs, pawb yn synnu. Wel, o'dd dim Union 'na chwel. 'Na'r bai o'dd 'na. O'n ni ddim yn ca'l Union 'na. O'dd e'n gallu neud beth o'dd e'n moy'n chwel.

### **O'dd e'n gweud bod chi ddim yn ca'l Union 'na te?**

O'dd, o'dd. Stopo'r Union yn dod 'na. O'dd y merched ddim yn ca'l fod yn yr Union. Reit, pawb yn pregethu, a nawr, Gertrude nawr, y German hyn, reit. Ma' hi'n dod rownd, chi'n gwobod te, a wedes i, 'It's not a very nice letter is it', wedes i 'tho ddi. 'To call his employees the names', chi'n gwobod te. Wedodd hi dim byd 'tho fi. Reit, pan wedes i 'tho ddi. Mewn bytu hanner awr ar ôl 'nny, da'th hi 'mla'n ato fi.

### **Y hi nawr?**

Ie, y German, reit. A wedodd hi, 'Mr Parsons wants to see you.' Reit.

**00.29.45: Shwd o'ch chi'n twmlo'n clywed 'na?**

O'n i'n meddwl, 'na hi nawr ife. Reit, chi'n gwbod te. A gorffes i fynd lan i weld e. Reit. A wedodd e, 'what do you think about?'. 'It's disgusted that that's the way you treat your employees,' wedes i 'tho fe. O'dd e'r dyn a'r diawl chwel. O'dd e'n terrible. Yn notod chi'n gwbod te. A o'dd e'n pregethu. A wedes i 'I'm not taking this'. 'You're sacked,' medde fe 'tho fi. Sacodd e fi. There and then, reit.

**Shwd o'ch chi'n twmlo? Shwd o'ch chi'n twmlo bod fe wedi neud shwd beth?**

O'n i'n falch bod fe wedi'n sako i. Reit.

**Ond o'ch chi ddim yn beco ymbytu colli'r arian?**

Nago'dd, chi'n gwbod te. A wedodd e 'tho fi, 'You paid full stamp, medde fe. 'I'll be stopping your – beth chi'n galw fe ...?

**Pego ife?**

Pego. 'pegging, the same time, medde fe. You won't get a penny.'

**O'dd hawl 'da fe i neud 'na te?**

Gaf i weud 'tho chi nawr beth wedodd e. Reit, 'na beth wedodd e, reit. 'Fair enough', wedes i 'tho fe. Etho fi gatre, wrth gwrs, straight away, dofe. Mynd lan y diwrnod ar ôl 'nny i'r Peggung Office, reit. Mr Evans, yn gweld Mr Evans. 'Beth alla i neud i chi nawr', medde fe. 'Wel,' wedes ' 'tho fe, 'O'n i'n gwitho yn y cockle factory', wedes i 'tho fe, '“ddo' a ma' fe wedi rhoi'r sac.' 'Beth ych chi wedi neud nawr te?', wedodd e 'tho fe. A fe wedes i 'tho fe, chi'n gwbod te, bod e ddim yn neis beth o'dd e wedi, wedi rhoi i'r merched i gyd. Ma'r llythyr i chi. Dangoses i'r llythyr iddo fe, reit i Evans, a medde fe, 'a o'dd e wedi gweud 'tho fi', wedes i 'bydda i ddim yn ca'l pego, ar y dole or nothing'. Reit. 'Wela i 'na, byddwch chi'n gallu ca'l e', medde fe

**'Na beth wedodd e.**

Ie, 'na beth wedodd Mr Evans, reit. O'dd e mor disgusted â fe, reit, chi'n gwbod te, geso i ddim trwbwl.

**00.32.27: Pam chi'n meddwl o'dd Parsons wedi hala shwd lythyr te?**

Off 'i ben fi'n credu o'dd e. Ie. O'n nhw'n gweud chwel, amdano fe, o'dd e, o'dd rhai yn gweud, o'dd plant 'da fe cofiwch, o'dd e 'di bwrw 'i wraig lawr y stâr te, ac o'dd hi'n cario ar y pryd. Sa i'n gwbod faint o wir o'dd e. Galla i ddim â gweud. Ond gas pawb llythyr. A fe gwplodd bytu wch o ferched wythnos ar ôl 'nny. Peth od bydde nhw wedi dod mas i gyd ife.

**Peth od bydde nhw ddim wedi dod mas 'da chi ife?**

Ie, chi'n gwbod ife.

**O'dd eisiau'r arian arnyn nhw.**

O'n nhw'n cwpla'r wythnos ar ôl 'nny 'u hunen.

**00.33.08: O'n nhw'n dewis cwpla?**

O'n. Dewish cwpla 'u hunen.

**00.33.12: O'n nhw'n ffed yp te?**



O’dd chwel. Ffed yp. Am beth o’dd e wedi’i roi i’r merched. Y llythyr, reit. ‘Sdim ishe i chi i fecso,’ medde Mr Evans, byddwch chi’n ca’l ych pego, a bues i ddim wythnos, reit, y pego. A o’n i wedi symud nawr i Burrows Terrace, reit. A Mary Bevan, nawr. O’dd hi’n gwitho’n Edwards y Cleaners. A ethof fi lan i Edwards y Cleaners un diwrnod, reit, gofnid os o’dd job yn mynd ‘mla’n ‘na. A geso i job straight away, there and then.

**00.34.00: O’ch chi ddim yn beco ymbytu ca’l jobyn arall te. O’dd digon o jobsys i ga’l pyr’nny?**

O’dd lot o jobs i ga’l pyr’nny chwel, o’dd lot o jobs i ga’l pyr’nny chwel.

**Chi’n gwbod pam o’ch chi’n Parsons, pwy o’dd yn gwitho ‘na fwya? Ife dynon neu fenywod?**

Menywod.

**O’dd dim lot o ddynon ‘na?**

Na. Dim o dynion yn gwitho ‘na. Un neu ddou o’dd yn gwitho ‘na.

**00.34.23: O’dd yr arian yn weddol te, neu o’dd e’n fach?**

Yr arian yn fach, arian bach o’dd pyr’nny. ‘Na fe, o’dd e’n llai na four pound fifty achos o’n i’n gwitho yn Edwards y Cleaners am four pounds fifty. A talu bys mas o’ fe. Reit. Mas o Burry Port i Tunnel Road. Four pound fifty. Four pound fifty o’dd y pai fi. ‘Na faint o’dd y pai.

**00.34.53: Pwy flwyddyn o’dd hwnna chi’n meddwl? Chi’n gallu cofio?**

Mawredd sy’n gwbod.

**Guess?**

Alla i ddim â gweud.

**Mae’n olreit?**

Sa i’n cofio. Sa i’n cofio.

**Ond joioch chi’n Edwards?**

Symudes i i Burrows Terrace yn 1950 reit. A fi’n siwr bytu 1950 o’dd hi. Neu 1951 ethof fi i’r cockle factory.

**00.35.17: Beth o’dd y conditions fel yn Parsons te? Chi’n gwbod beth o’dd y lle fel?**

Terrible. Dŵr yn dod trw’r ceiling, dŵr yn dod trw’r, o’ch chi’n gorfod symud. Pan o’dd hi’n bwrw glaw o’ch chi’n gorfod symud. O’dd dŵr yn dod lawr o’r building.

**I feddwl o’n nhw’n neud bwyd ‘na, chi’n gwbod. Cockles – bwyd yw e ife?**

Wel, dim ond cockles a mussels chwel, o’n nhw’n neud ‘na chwel.

**00.35.50: O’dd toilets teidi ‘na? A pethach fel ‘na? O’dd toilets teidi a pethach fel ‘na yn Parsons?**

Nago’dd. O’dd dim byd teidi ‘na. Dim byd. O’dd hi’n wael ‘na. Terrible. A dŵr ar y llawr a pethach fel ‘nny. O’ch chi’n gwitho’n dŵr chwel o’ch chi. Chi’n gwbod y mysls, pans o mysls. O’n nhw’n dod â nhw i chi. O’dd dou neu dri dyn yn berwi’r mysls, a’r cocls chwel, a o’n nhw’n dod wedyn ‘nny yn pans chwel. O’ch chi’n codi’r hwnnw o’r dŵr chwel, a dod i nhw ar y trê. A paco nhw chwel. O’ch chi’n paco nhw.

**00.36.30: Ond beth o’dd ar ych dwylo chi te?**

Terrible. Smelo. Sa i’n lico mysls na cocls.

**00.36.38: A beth o’dd ar ych tra’d te? O’dd rhwbeth ‘da chi, rhwbeth speshal? Achos o’dd hi’n wlyb ‘na o’ch chi’n gweud?**

Wellingtons o’dd ‘da ni.

**O’n nhw’n rhoi rheina i chi?**

Nagon, yn rhoi dim byd. Parson?!

**Beth am overall neu rhywbeth te?**

Na. O’ch chi’n mynd â pethach eich hunan. Pethe eich hunain chwel.

**Swno fel bod chi wedi gwneud y peth iawn yn mynd?**

Dyn, alla i ddim â gweud ‘tho chi, dyn y diawl o’dd e.

**00.37.07: Ond o’dd e’n ca’l digon o bobol i witho ‘na o’dd e?**

Wel, o’dd dynion yn dod ‘na, a rhai o’ nhw dim ond diwrnod ne ddou, o’n nhw’n mynd. O’n nhw ffaelu ca’l dynion i witho ‘na. O’n nhw ffaelu ca’l merched i witho ‘na, chwel. O’dd e’n terrible. Wel, eniwê. Ethof fi i Edwards y Cleaners, cl’au dillad chi’n gw bod te, a pethach fel ‘nny. A Muriel Morris, a fi nawr o’n i in charge o’r merched chi’n gw bod te, a sbots a pethach, o’ch chi’n treial ca’l e bant o’r dillad a pethach fel ‘nny chi’n gw bod. Reit. Bues i ‘na am ten years. A fe gaeodd e lawr. Wonderful. Mr Evans, Mr Edwards fi’n meddwl, o’dd e’n wonderful, wonderful man, reit.

**Dim fel Parsons te?**

Wel, o’dd e’n rili, allech chi credu o’dd e’n dad i chi. Reit, Mr Edwards. A rhai ddim yn lico fe, ond o’n i’n neud yn net ‘da fe, reit. Fi’n cofio ethof fi’n dost, chi’n gw bod. Enwyd a pethe fel ‘nny. O jiw, jiw. Bues i’n dost pyr’nny. A sore throat. Gorffes i sefyll gatre am bythownos, reit. A ethof fi i mewn y diwrnod ar ôl yr wythnos reit, a da’th e ‘mla’n ataf fi a medde fe ‘thof i, ‘Good God’. O’dd ‘yn lips i gyd yn scabs i gyd chi’n gw bod. Dylen i ddim fod wedi mynd mewn chwel. A medde fel ‘thof i, ‘What are you doing here?’. ‘Work’, wedes i ‘tho fe. ‘Well, put your coat on,’ medde fe ‘thof fi, ‘I’ll take you home’. A fe a’th e gatre â fi i’r drws y tŷ. ‘And don’t you come back until you come better’. A ‘na ble buodd e. Ond se fi’n well eniwê, chi’n gw bod te. O’dd e’n wonderful person. O’dd e’n wonderful person i fi.

**Ond caeodd hwnna wedyn? Caeodd y lle ‘na lawr,**

Ceuodd y lle lawr.

**Nagon nhw’n cael digon o waith te, ne beth o’dd e?**

Na, o’dd e’n mynd ‘mla’n mewn oedran chwel.

**O’dd e’n riteiro?**

O’dd, riteiro. O’dd siop ‘da fe’n Burry Port, chi’n gw bod te. A New Rene (?) o’dd yn y siop, a rhwbeth o’dd rhywun yn moyn, rhywbeth speshal, chi’n gw bod o’dd fi, o’dd e’n rhoi fe i fi wedyn ‘nny ca’l mynd gatre â fe, a mynd â fe i siop New Rene yn Burry Port. Chi’n gw bod rhywun nawr a dillad o Burry Port chwel a o’dd ishe nhw emerjynsi, moyn nhw’n gloi chwel. O’n i’n mynd â’r dillad wedyn ‘nny i’r siop ar y ffordd gatre chwel. A geuodd y

siope a chwbl. O’dd siop ‘da fi’n dre, chi’n gwbod te. A siop ‘da fi’n Burry Port, chi’n gwbod te.

**A shwd o’ch chi’n twmlo te, pan geuodd hwnna achos o’dd dim gwaith ‘da chi wedyn?**  
O’n i’n teimlo’n terrible. Terrible. O’dd e’n rili, rili neis man, chi’n gwbod te. Gallech chi ddim cael dyn, fe o’ch perchen y lle. O’dd e’n mynd mla’n mewn oedran nawr chwel. ‘Na fe riteiro. O’dd lot o ferched yn gwitho ‘na cofiwch, chi’n gwbod te.

**00.40.52: A ble buoch chi wedyn?**

A wedyn ‘nny ceuodd hwnna lawr, reit. A ethof fi i’r Optical.

**I’r Optical yn Cydweli?**

Cydweli. Bues i ten years yn Edwards. A bues i two months short of ten years yn yr Optical.

**00.41.15: Chi’n cofio bytu pwy flwyddyn ethoch chi i’r Optical? Pryd o’dd e? Os guess ‘da chi? Beth o’dd ych oedran chi’n mynd i’r Optical?**

O’n i’n cwpla yn yr Optical yn fifty nine.

**Pryd o’dd hwnna, chi’n cofio?**

Fifty nine o’n i pan gwplles i, achos o’dd rhain (y pengliniau) yn mynd chwel. Wel, cowntwch chi wedyn ‘nny. Bytu nineteen forty nine, forty eight, forty nine ife.

**Fifty nine ife?**

O’n i’n cwpla yn 59 yn yr Optical. Ie. O’n i wedi bod ‘na two months short of ten years. Achos a’th ‘y nghoese i chwel. Gorffes i roi lan. A geso i redundancy chwel. O’dd y redundancy ‘na ar y pryd, a fe gymeres i fe pyr’nny achos o’dd y rhain yn dechre mynd. O’n i’n gorffod sefyll chwel ar ‘yn dra’d trw’r amser chwel.

**00.42.24: Shwd ethoch chi ymbytu ca’l job yn yr Optical?**

O’dd y gŵr ‘na chwel. O’dd e ‘na chwel. O’dd e ‘di bod ‘na eighteen years. Eighteen years o’dd e ‘di bod ‘na.

**Ac o’dd e’n gwbod, o’dd e ‘di clywed bod jobsys yn mynd ‘na?**

Mynd lawr ‘na’th e. Gwplodd e yn y Sheet Mills. Ceuodd y lle lawr. A’th e wedyn ‘nny, gas e jobyn gyda Wimpeys, reit.

**Bildo o’n nhw’n neud?**

Bildo o’n nhw’n neud. Bildars o’n nhw. Reit. A buodd e five years gyda nhw. Reit. A nawr, o’dd e mwy ar yr hewl ‘na beth o’dd e gatre. Reit. O’n nhw’n mynd i bob man, reit. A fe gwplodd fan ‘nny. Cymerodd e diwrnod off, a’th e lawr i’r Optical, a ‘na ble buodd e yn yr Optical am eighteen years.

**Ond pan o’dd e’n gwitho ‘na, o’ch chi wedi cwpla’n Edwards, ife fe wedodd wrthoch chi, ma’ nhw’n while am rai’n yr Optical?**

Na, na. Yr Optical yr un peth. O’n nhw’n mynd a dod ‘na.

**00.43.49: O’ch chi’n gorfod ca’l interview’n yr Optical? Fel o’ch chi’n ca’l job?**

O’ch. O’ch chi’n gorfod ca’l interview. Mr Fellgate.

**Ac o’ch chi’n mynd lawr i weld e wedyn.**

O'n i'n mynd lawr i weld e chwel.

**O'ch chi'n gorfod ca'l qualifications, ne o'n nhw'n moyn gweld chi'n neud rhywbeth gynta?**

Nagon. Dim byd. O'ch chi'n ca'l bys, bysus yn mynd lawr chwel. O'dd bysus yn pigo chi lan chwel, ar y stryd chwel.

**00.44.16: Ond o'dd e, y bachan 'na o'ch chi'n gweud, Mr Fellgate ife, o'dd e'n gwbod bod Wadic yn gwitho 'na?**

O'dd, o'dd.

**A bod chi'n wraig i Wadic?**

O'dd, o'dd e'n gwbod. Gas e jobyn straight away pan a'th e lawr 'na. O'dd e'n trafeili shwd gymint 'da Wimpeys. O'dd e'n mynd lan i Ga'rddydd, chi'n gwbod te, a bob man i gyd. O'dd e'n hwyr yn dod gatre, chi'n gwbod te. O'dd e'n too much o fe. O'dd e'n mynd mas o'r tŷ am whech o'r gloch y bore.

**00.44.45: Ond pan ethoch chi i'r Optical i witho, shwd le o'dd e? Shwd le o'dd e, chi'n gwbod. Chi'n gallu describeo fe?**

O'dd e olreit, o'dd. O'dd. Enjoies i 'na, chi'n gwbod te.

**Shwd o'dd y diwrnod cynta'?**

Wel, o'ch chi'n gorfod dysgu chwel o'ch chi, yn bwrw'r lensys mas o'r wacs, chi'n gwbod te.

**Beth o'n nhw'n neud yn yr Optical? Beth o'dd y product o'n nhw'n neud?**

Lensys.

**Lensys glasys ife?**

Ie. O'dd merch gyda Wadic, o'dd lle mowr fel 'na a bytu twenty o moulds, reit. A rheina yn wahanieth nymbars, a o'dd y nymbars ar y glasys. O'dd dim glasys fel 'na pyr'nny. O'dd glasys rhywbeth yn debyg, chi'n gwbod, o'ch chi ffaelw gweld trwyddyn nhw, reit. A nymbars arnyn nhw, reit. O'dd y ferch nawr yn doddi'r lensys mewn yn y moulds, a fe wedyn 'nny yn bloco nhw, wacs yn dod lawr, a oedd e'n presso. O'dd y wacs, yn pwsho fe dano, a wedyn o'dd y wacs yn dod lawr o'r top, yn mynd ar hwnna, reit. Wedyn 'nny, ar ôl 'nny o'ch chi'n gorfod, o'dd hi'n gorfod doddi'r lensys yn y reit moulds. O'dd nymbars ar y lensys. A o'dd nymbars ar y moulds. A ma' nhw fod yn y reit moulds. Wel, wedyn 'nny ar ôl iddo fe bloco nhw, o'dd e'n doddi nhw ar troli, a 'n nhw'n mynd wedyn 'nny o'r troli i ffeino nhw, reit machine gwbod te., machine. Dodi nhw mewn yn y machine i ffeino'r glass, yn dod yn hwnna. A wedyn 'nny ar ôl ffeino nhw o'n nhw'n mynd lawr i'r gwaelod wedyn 'nny i polisho nhw, reit, a yn y moulds nawr, reit, a ar ôl 'nny wedyn 'nny o'n nhw'n mynd o'r polish i'r freezer. O'dd freezer - freezer fowr, fowr 'na.

**00.47.15: Pam o'dd freezer 'na?**

Ca'l y lensys. Wel, sa i'n gwbod achos beth. O'n nhw'n doddi nhw mewn yn y freezers. A fifty two blocks in every trolley, ar every trolley, reit. O'n nhw'n mynd mewn i'r freezer, ymbytu hanner awr, a wedyn 'nny o'n nhw'n dod mas â'r trolleys wedyn 'nny. O'ch chi'n ca'l y trolleys wedyn 'nny, reit, a o'dd ice arnyn nhw. A o'ch chi'n gorfod bwrw nhw mas.

**00.47.56: O'ch chi'n ca'l nhw mas o'r freezer?**

O'r freezer reit. A bwrw'r lensys mas o'r bowls.

**Gyda beth wedyn? Bwrw nhw mas gyda beth? Beth o'ch chi'n iwso?**

Dagger. Dagger. Byddech chi'n twtsha, byddech chi'n twtsha'r lens 'na, o'dd e'n waste.

**Wedi sbwylo?**

Wedi sbwylo, reit. O'ch chi'n gorfod watsho bo chi ddim yn twtsho'r lensys o'dd yn y wacs, chwel.

**00.48.31: O'ch chi'n gallu gwishgo rhwbeth ar ych dwylo?**

Nagoch. Nagoch.

**Achos o'dd hi bownd o fod yn oer 'na?**

O'dd, fi'n gwbod. O'dd e yn o'r 'na. O'dd. O'dd hi yn o'r. Yn o'r i handlo nhw. Gallech chi ddim a iwso ...

**Menyg ife?**

Gallech chi ddim a iwso menyg.

**Ond o'dd hwnna'n effeithio'ch dwylo wedyn?**

Wel, o'dd. O'dd ice arnyn nhw bob dydd chwel ife, chwel. O'dd ice arnyn nhw, reit. Ac o'ch chi'n gorfod neud eleven trolleys a day, chi'n gwbod te. A fifty two blocks, bob trolley. A o'ch chi'n bwrw'r lensys mas o'r wacs. A wedyn 'nny, o'dd tray 'da chi ar y ford, a o'ch chi'n dodi nhw'n y tray wedyn 'nny. A watsho bod y nymbars iawn ar y tray, a ticket wedyn 'nny. O'ch chi'n dodi ticket fan 'na, reit. A ...(?).. nymbar chi'n gwbod te a popeth.

**Gyda pwy o'ch chi'n gwitho te? O'dd gang o ferched gyda chi?**

O'dd. O'n i'n saith o ferched.

**Saith o' chi'n yr un lle.**

Twelve, eleven, ten, nine, eight, seven, six, five. 'Na fe, eight o ferched.

**Beth yw'r nymbars 'na o'ch chi'n gweud 'nawr te? Beth yw'r nymbars 'na, o'ch chi'n cownto nôl o'ch chi?**

O'dd eight o ferched yn gwitho 'na a o'dd bench gyda pob un.

**Ac o'n nhw'n neud yr un peth â chi?**

O'dd, o'dd. Yn neud yr un peth â fi. O'dd, o'dd.

**Shwd o'dd ych dwylo chi'n twmlo ar ôl 'nny te?**

Wel, yn o'r chwel ife, yn o'r chwel ife, chi'n gwbod te.

**O'n nhw'n mynd yn sych o gwbl?**

Na, dim fel 'nny. Ond, chi'n gwbod o'dd hi yn o'r. O'dd ice yn dod mas o'r freezer chwel, chi'n gwbod te. Ond yr unig beth o'dd hi chwel, o'dd dagger 'da'ch chi fel hyn, chwel, o'ch chi ddim yn twtsho lot o'r, ond o'ch chi'n dodi'r lensys mewn yn y tray wedyn 'nny chwel.

**00.50.45: Os o'dd lens yn ca'l 'i sbwylo te, o'ch chi'n ca'l row?**

O'ch chi'n ca'l row.

**Pwy o’dd yn rhoi’r row ‘na i chi te?**

Yr, beth chi’n galw fe, dim y manager, y boss o’dd drosto chi, Bryn Thomas, o’ch chi’n ca’l row.

**O’dd e’n strict?**

Nago’dd, dim fel ‘nny te, chi’n gwbod te. O’n i’n neud yn net ‘da Bryn. O’dd Bryn yn dod o Drimsaran o’dd e, chi’n gwbod te. O’dd e’n gweud ‘tho chi, ‘watsha tro nesa nawr’. Reit. ‘Watsha’r blincin dagger ‘na nawr’. Reit.

**00.51.31: O’ch chi’n gweud bod hyn a hyn ‘da chi i neud ife. O’ch chi ddim yn cyrra’dd y target ambell waith? O’ch chi’n gweud bod rhaid i chi neud hyn a hyn bob dydd ife?**

O’ch chi fod i neud eleven trolleys chwel.

**Eleven trolleys. Beth bydde’n digwydd sech chi ddim yn neud y trolleys ‘na?**

Os o’ch chi ffaelau mynd trwyddyn nhw, o’n nhw’n ca’l ‘u gadel o’n nhw, chi’n gwbod. O’dd dwy shifft ‘na chwel. Shifft y bore a shifft prynhawn chwel. A o’n i mewn prynhawn, y bore, a rhywun o’dd yn dod mewn y prynhawn wedyn ‘nny, o’n nhw ar hwnna wedyn ‘nny chwel.

**00.52.10: Ond beth os nag o’dd y gwaith yn ca’l ‘i neud? Beth os nag o’dd y gwaith yn ca’l ‘i neud? Dim gyda chi, falle gyda rhywun arall, bod nhw’n gwitho’n rhy slow falle.**

Sa i’n gwbod. Alla i byth â gweud ‘tho chi am ‘na. Ond, wel, o’dd lot o mistêcs yn ca’l ‘u neud chwel, chi’n gwbod te. Dodi lensys yn y rong bowls, doddi lensys yn y rong trays, reit, a wedyn ‘nny o’n nhw’n mynd lan i’r lofft wedyn ‘nny, a fan ‘na o’n nhw’n paso popeth chi’n gwbod. Os o’dd marc bach ar y lens, o’dd e’n ca’l ‘i dowlu chwel. A wedyn ‘nny ma’ nhw’n gwbod pwy sydd wedi neud hwnna. O’ch chi’n ca’l row wedyn ‘nny chwel. Idris Daniels, oh my God, o’dd e’n weipo’r llawr â chi.

**00.53.06: O’dd e?**

Idris. O’dd e’n ca’l y cwbl i gyda ‘da’i gilydd.

**Pwy o’dd e te? Fel supervisor neu charge hand, ne beth o’ch chi’n galw fe?**

Wel, o’dd e yn mwy uwch na’r ... Tipyn o fos o’dd e, chi’n gwbod te, reit. Idris Daniels. Idris Daniels o’dd e ‘fyd.

**00.53.29: Beth o’dd e’n gweud ‘tho chi te?**

O, o’dd e’n galw chi tipyn o bopeth.

**O’dd e? Fel beth?**

O’n i i gyd yn ca’l hi. O’dd e’n ca’l y cwbl gyda’i gilydd.

**00.53.42: Beth o’dd yn gweud te?**

O, mowredd sy’n gwbod. Sa i’n cofio nawr. Honest to God. A cofio beth o’dd e’n gweud ‘tho chi, sa i’n cofio. Honest to God. O’dd Idris yn ddiawledig.

**00.54.02: O’ch chi’n joio gwitho ‘na?**

O’n. O’n i’n joio gwitho ‘na cofiwch, chi’n gwbod te.

**O'ch chi wedi gwitho mewn lot o lefydd gwahanol. A o'ch chi wedi dechre'n ifanc iawn, yn gwitho ar y ffarm a llefydd fel 'na. Shwd o'dd hwnna'n cymharu nawr?**  
O'ch chi'n dod yn gyfarwydd â fe chwel, chi'n gwbod te.

**Faint o bobol o'dd yn gwitho 'na chi'n credu?**

O, jiw, jiw o'dd lot rhyfedda 'na. Siwr o fod six or seven hundred. Ar lofft a phopeth, chi'n gwbod te. O'dd lot rhyfedda 'na, ar lofft yn gwitho 'na chi'n gwbod te. O'n nhw ar y machines, bues i ddim lan yn y lofft a gweud y gwir 'tho chi, yr amser bues i 'na. Lot o ferched lan yn y lofft, ond merched i gyd o'dd 'na. O'dd dynion 'na 'fyd cofiwch, dynion 'na 'fyd. Y nhw o'dd yn ffeino chwel.

**Dynon o'dd yn ffeino?**

A'r polisho nhw chwel, y rhai bach 'na chwel.

**00.55.00: Dynon o'dd yn ffeino. O'dd dynon yn neud rhai jobs, a menywod yn neud jobs erill 'na?**

O'dd jobs erill 'na gyda'r, gyda beth o'n i'n neud chwel. Lawr ar y torics (?), chi'n gwbod te. O'n nhw a wahanieth jobs altogether. O'dd e'n le mowr cofiwch.

**O'ch chi'n nabod rhan fwya nhw, ne o'dd pobol yn mynd a dod?**

O'n i'n nabod rhan fwya nhw. O'dd un o nhw ma' dydd, dydd Mowrth diwetha, Daphne. O'dd hi'n gwitho'n yr Optical, friendly chwel ife. Chi'n gwbod te, da'th hi lan. O'dd hi'n dod lan i weld y dentist yn Burry Port, 'fi'n galw' medde hi. 'Dere di', wedes i 'tho ddi. A o'n i ddim yn nabod hi cyn 'nny cofiwch, chi'n gwbod te. O'n i ddim yn nabod hi cyn bod fi'n mynd i'r Optical. Un o Cydweli yw hi, chi'n gwbod te. Marwodd 'i gŵr hi blwyddyn diwetha, Christmas diwetha. Buodd hi 'ma trw'r dydd.

**O'ch chi'n ca'l sbort 'na te?**

O, o'n. O'n i'n ca'l sbort, tipyn o sbort 'na.

**O'ch chi'n gallu siarad wrth bod chi'n neud y gwaith?**

Nagoch. O'dd neb ar ych bwys chi chwel. A sech chi'n neud cymint o mistakes chwel os byddech chi'n siarad chwel. O'ch chi'n gorfod watsho'r moulds chwel, achos o'dd y moulds yn wahanieth nymbars chwel. Ac o'ch chi'n gorfod dodi nhw yn y wahanieth tray, wedyn 'nny chwel. Chwel.

**00.56.35: Pwy amser wedoch chi bod chi'n dechre shifft dydd?**

Saith.

**Ac o'ch chi'n ca'l bys mewn i'r gwaith.**

O'n.

**Ife service bus o'dd e' neu bys, y gwaith o'dd yn trefnu'r bys?**

Bys, o'ch chi ddim yn talu am y bys. Bys Eynons o'dd hi.

**Bys yr Optical o'dd e te?**

Ie, bys, ie.

**O'ch chi'n ca'l, o'ch chi'n dechre am saith te wedoch chi. O'ch chi'n ca'l brêc yn y bore wedyn?**

O'ch chi'n ca'l cwarter awr i frecwast. A hanner awr i gino.

**O'dd e ddim yn lot te?**

Nago'dd.

**O'dd brêc yn y prynhawn?**

O'ch chi'n cwpla am ddou chwel. Ond pam o'dd shiffts 'na o'ch chi'n cwpla am ddou, o'dd dynion erill yn dod mewn wedyn 'nny o ddou i ddeg chwel. O'n i'n gwitho dwy shifft. O'n i'n gwitho dwy shifft, chi'n gwbod te. Gwitho un wythnos y bore a wythnos yr ôl 'nny wedyn 'nny y prynhawn chwel.

**Shwd o'ch chi'n twmlo am witho shiffts te?**

Dim yn keen iawn ar shifft. Well 'dan i gwitho yn y bore chi'n gwbod ife.

**O'dd rhaid i chi newid? Chi'n gwbod, o'ch chi ffaelu aros ar yr un shifft te?**

O, na. Na, na, na. O'ch chi ddim yn gallu. O'ch chi'n gorfod neud y shifft.

**O'ch chi a Wadic, ych gŵr yn gwitho'r un shifft?**

O'dd. O'dd.

**Drw'r amser.**

O'dd, o'dd.

**O'ch chi'n gallu trefnu hwnna te, bod chi ar yr un shifft?**

Ody, ody.

**O leia o'ch chi'n gallu gweld ych gilydd wedyn?**

**00.58.13: O'ch chi'n gweud bod chi'n gwitho ar bwys, bod chi'n ôl pethe mas o'r freezers, o'dd y lle'n o'r te? O'dd y lle 'i hunan yn o'r?**

O'dd e yn ffactri o'r cofiwch.

**00.58.22: Beth o'ch chi'n gwishgo i'r gwaith te?**

Dillad, chwel, ife. Jympers chi'n gwbod te, a cardigan. O'dd e'n olreit 'na'n yr haf cofiwch. Ond yn y gaea' o'dd hi'n o'r 'na, chi'n gwbod te.

**O'n nhw'n rhoi overalls ne rwbeth i chi?**

Nagon, nagon.

**O'dd y dillad yn sbwylo chi'n gwbod?**

Na, o'ch chi'n gorfod iwso, o'ch chi'n gorfod pyrnu overalls chwel, ych hunan chi'n gwbod te, plastig chi'n gwbod te, o'ch bla'n chwel.

**A tra bod chi 'na, o'ch chi'n gweud bod chi 'na am ddeg mlynedd jest â bod, o'ch chi'n yn neud yr un job am ddeg mlynedd?**

O'n.

**O'ch chi'n twmlo, o'ch chi'n mynd yn ffed yp ne' o'ch chi'n olreit?**

Nagon, o'n i ddim yn mynd yn ffed yp, chi'n gwbod. O'n i'n olreit, chi'n gwbod te. Os o'dd rhywun yn ishe rhywbeth chi'n gwbod, dim wedi dod mewn â rhywbeth, 'falle bydden i'n



gofnid i chi, gellid di, cer draw i neud hwnco chi'n gwbod. Glasso neu rwbeth, os o'dd rhywun yn eisiau chi'n gwbod te. O'ch chi'n mynd wedyn te.

**00.59.33: O'dd Undeb wedyn 'nny yn yr Optical? O'dd Union 'da chi'n yr Optical? O'dd Union 'na?**

O'dd Union 'na.

**Pwy Union o'dd e, chi'n cofio?**

Sa i'n cofio, sa i'n cofio. O'dd Union yn yr Optical.

**O'ch chi'n teimlo bod hwnna'n gallu helpu chi wedyn achos chi'n gwbod pam o'ch chi'n Parsons, o'dd e'n gallu neud fel o'dd e'n moyn?**

O'dd e'n neud fel mae e'n dewish chwel.

**A beth am yr Optical wedyn 'nny?**

Os o'dd rhwbeth 'da complaints chwel o'ch chi, wel complaines i ddim erio'd i'r Union. So alla i ddim a gweud 'tho chi. Sa i'n gwbod beth o'n nhw.

**Ond o'ch chi'n talu at hwnna?**

O'dd bachgen 'na, John, fe o'dd yr Union. O'dd e'n gwitho 'na. Wrth gwrs, o'dd rhywbeth yn digwydd, o'ch chi'n gorfod mynd at John, chwel. Ond bues i ddim ato fe, at John o gwbl.

**A shwd beth o'dd e te?**

O'dd e'n olreit chi'n gwbod te, John. Olreit. O'dd John yn olreit.

**01.00.31: Ac o'ch chi'n gorfod talu am hwnna wedyn, talu.**

Sa i'n gwbod. O'n, o'n i'n gorfod talu am yr Union. Yn ych pai, chi'n gwbod te. Ac o'ch chi'n talu wedyn am Manor House.

**Beth yw hwnna te?**

Yn Llunden. Pan a'th y penlinie, ethof fi lan i Manor House. O'dd e'n free chwel.

**Beth o'dd Manor House te?**

Hospital. Hospital yw hi.

**O'ch chi'n talu am 'Health' o'ch chi?**

O'ch chi'n talu chwel am, o'n i'n talu yn yr Optical chwel. Wel pan a'th y penlinie chwel, o'n nhw'n mynd yn dost, ethof fi lan i Manor House. Bues i 'na am wthnos. Nage pythownos bues i 'na, reit. Anghofia i byth. O'dd dim un nyrsys na doctors gwyn i ga'l 'na. Jiawled o'n nhw. Un tywyll o'n nhw chi'n gwbod te ife. Reit. My God. O'n nhw'n treto chi fel bod chi fel baw. O'n i'n falch i ddod mas o' 'na. Wel, gorffes i mynd mas o' 'na in any case. Da'th Wadic lan i ôl fi. O'dd dim cliw 'da fi chwel. Tu fas o'dd e, tu fas, yr hospital yn Llunden chi'n gwbod te. Chwel.

**01.02.24: Pan o'dd menywod yn gwitho'n yr Optical, ife rhai priod o'dd 'na fwya neu rai 'single girls' chi'n gwbod.**

Nagon. O'dd rhan fwya nhw'n briod.

**O'n nhw?**

O'n, o'n. Rhan fwya nhw.

**Beth o'dd yn digwydd pan o'n nhw'n ca'l plant wedyn? O'n nhw'n cwpla?**

O'n nhw'n cwpla wedyn 'nny chwel. O'n, o'n.

**O'dd y gwaith yn drwm wedech chi?**

O'dd, yn drwm. O'dd e yn drwm. Yn drwm i handlo'r moulds chi'n gwbod. O'n nhw'n wacs i gyd chwel. O'dd saith lensys ar bob mould. A ma' moulds mor drwm, chi'n gwbod te, reit. A wacs ar hwnnw wedyn 'nny. O'dd e yn hala chi. O'ch chi'n cytsho nhw o'r trolley, dodi nhw ar y bench, chi'n gwbod te, ar y ford te. O'dd pwyse arnyn nhw chi'n gwbod te. 'Na shwd ma' rhain wedi mynd chwel.

**Ysgwydde wedi mynd. Hwnna wedi effecto'r ysgwydde chi'n meddwl.**

Yr ysgwydde chwel.

**01.03.33: A beth am y coese wedyn?**

Wel, sefyll yr holl, trw'r dydd chwel ife, o'ch chi ddim yn gallu ishte lawr nagoch chi. O'dd gwaith yn dod trw'r amser, o'ch chi ffaelu eistedd lawr. Byddech chi ffaelu neud ych gwaith. O'ch chi ddim yn eistedd lawr i neud y gwaith chwel.

**Chi'n meddwl dylech chi wedi cael mwy o brêcs?**

Dim ond, yr unig brêc o'ch chi'n ca'l o'dd i frecwast ac i gino chwel. 'Na i gyd o'ch chi'n ca'l. O'ch chi'm yn ca'l rhagor.

**01.04.06: O'dd rhai 'na'n ffaelu neud y gwaith? Chi'n gwbod, o'ch chi'n gweud bod e'n drwm. Sdim pawb yn gallu.**

O'dd lot yn cwpla 'na, achos beth alla i ddim a gweud 'tho chi. Galla i ddim â gweud. Lot yn cwpla 'na, chi'n gwbod.

**O'n nhw ddim yn para'n hir 'na chi'n meddwl.**

Nagon. Lot yn gwitho 'na. Lot. O'n nhw 'na chi'n gwbod te am bythownos neu dair wthnos a wedyn o'n nhw wedi mynd.

**Jiw, jiw. Dyw hwnna ddim yn sbel ydyw e?**

Nadi, nadi.

**Ble bydden nhw'n mynd wedyn? Ble bydden nhw'n mynd wedyn 'nny? Ca'l job arall?**

Wel, sa i'n gwbod ble o'n nhw'n mynd. So 'na chi.

**O'dd dim lot o fenywod â plant bach 'na te? Chi'n gwbod os o'dd menyw yn ca'l plentyn?**

Sa i'n gwbod. Alla i ddim â gweud. Y rhai o'n i'n nabod, o'dd plant wedi tyfu lan 'da nhw, chi'n gwbod te, reit. Betty, Pontiets. O'dd Betty ddim yn briod o gwbl. Ponthenri, Betty'n byw yn Ponthenri. Chi'n nabod Betty?

**Nadw.**

Sa i'n gwbod os ydyw hi'n by nawr, sa i'n gwbod. A'i wha'r hi'n byw, byw gyda'i wha'r o'dd hi. A o'dd Betty ddim yn briod. O'dd ei wha'r hi wedi bod yn briod, wy'n gwbod. Reit, o'n i very friendly â Betty, chi'n gwbod te.

**01.05.29: Shwd beth o’dd y pai te? Shwd beth o’dd y pai?**

O’dd e bytu forty neu fifty pound, fi ddim yn siwr nawr. Rhwbeth fel ‘na o’dd e.

**O’ch chi’n twmlo bod e’n eitha’ da?**

Wel, am y gwaith o’ch chi’n neud dyle fe fod yn fwy. Ond ‘na fe chwel, o’dd dim lot o bai i ga’l pyr’nny, chwel. Four pound fifty o’n i’n ca’l yn Edwards y Cleaners. A talu bys mas o hwanna.

